PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI MAMAU NEWYDD A MAMAU BEICHIOG

| Dyddiad | Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| 22 Mai 2013 | Cyhoeddwyd Gyntaf | |
| 8 Ionawr 2019, 15 Gorffennaf 2022 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 14 Rhagfyr 2018 |

| Y Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 30 Ionawr 2019 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2026

## 1. RHAGARWEINIAD

Tra bydd merch yn disgwyl plentyn mae'n bwysig bod effeithiau posib ei gwaith arni hi a'r plentyn sydd heb ei eni'n cael eu hasesu er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r peryglon posib yn y gweithle'n niweidio'r plentyn. Sylweddolir hefyd tra bydd y plentyn yn datblygu y bydd anghenion y ferch yn newid ac y gall fod angen newidiadau ffisegol yn y gweithle i ddarparu ar gyfer y newidiadau hynny.

Ar ôl i'r fam fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl geni'r plentyn, mae'n bwysig sylweddoli y gall y gweithle effeithio ar y plentyn newydd ei eni, yn enwedig tra bydd y fam yn bwydo ar y fron.

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar y Brifysgol a'i Cholegau, Gwasanaethau Proffesiynol, Staff a Myfyrwyr ar gyfer mamau newydd neu famau beichiog.

## 2. DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

**Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:**

- Pob coleg, ysgol a gwasanaeth proffesiynol:
- Holl staff a myfyrwyr

**Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:**

- Ymwelwyr.

## 3. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG A'R DDEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hynny dan y gyfraith, mae gan y Brifysgol a'r Colegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau bod unrhyw risgiau ychwanegol i fam newydd neu feichiog a wynebir wrth ymgymryd â dyletswyddau sy'n ymwneud â'r brifysgol yn cael eu hystyried a'u rheoli'n briodol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Yn dibynnu ar y risgiau a nodwyd, gall gofynion deddfwriaethol penodol ychwanegol fod yn berthnasol wedyn, er enghraifft, y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio ar gyfer y rhai sy'n gweithio gydag ymbelydredd ïoneiddio, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda sylweddau peryglus penodol.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y Polisi hwn defnyddir y diffiniadau canlynol:

- Mamau Newydd neu Famau Beichiog: Y sawl sy'n feichiog, y sawl sydd wedi geni plentyn o fewn y chwe mis blaenorol, a'r sawl sy'n bwydo ar y fron.

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

a. Sefydlu, trwy'r Polisi hwn, weithdrefnau sy'n ceisio cydymffurfio â deddfwriaeth i ddiogelu iechyd a diogelwch mamau newydd neu famau beichiog fel y'u diffinnir uchod.

b. Darparu adnoddau digonol i gefnogi gweithredu'r Polisi hwn.

c. Dirprwyo, yn unol â system reoli'r brifysgol, y ddyletswydd i weithredu'r Polisi hwn i Ddeoniaid Coleg a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol.

## 6. CYFRIFOLDEBAU COLEGAU /GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae gan bob Deon Coleg / Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol ddyletswydd i sicrhau iechyd a diogelwch pob mam newydd neu fam feichiog. Gan hynny mae'n rhaid i bob coleg a gwasanaeth proffesiynol:

a. Roi gwybod i Wasanaethau Myfyrwyr (i Fyfyrwyr) neu Adnoddau Dynol (Staff) am feichiogrwydd.

b. Cynnal Asesiad Risg Mam Newydd a Mam Feichiog unigol ar gyfer pob aelod staff perthnasol, ar yr adegau a nodir isod, sy'n ymwneud â'u gweithgareddau penodol yn y gweithle:

- yn feichiog - gydag adolygiadau bob tri mis
- yn bwydo ar y fron, neu
- wedi rhoi genedigaeth yn y 6 mis diwethaf

c. Sicrhau bod y risgiau i iechyd a diogelwch y fam newydd neu feichiog yn cael eu gostwng i'r lefel isaf sy'n rhesymol ymarferol.

d. Sicrhau nad yw gweithgareddau a defnyddiau gwaith yn effeithio ar y plentyn heb ei eni neu'r plentyn newydd ei eni.

e. Os na ellir rheoli neu leihau'r risgiau mewn modd digonol, symud y fam o'r risgiau neu newid y gweithgareddau gwaith er mwyn sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn heb ei eni neu newydd ei eni.

f. Rhoi gwybod i Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Campws neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr, fel bo'n berthnasol, am y camau sydd i'w cymryd i reoli risg sylweddol.

g. Adolygu asesiad risg y fam newydd neu feichiog yn rheolaidd a chadw cofnod o'r asesiadau hyn am bum mlynedd o leiaf.

h. Sicrhau rhywle lle gall gweithwyr beichiog neu rai sy'n bwydo ar y fron orffwys.

Nodir bod yn rhaid i asesiadau risg eraill yn y gweithle ystyried hefyd risgiau sy'n benodol i ferched mewn oed geni plant, gan gynnwys afiechydon swonatig, deunyddiau teratogenig a mwtagenig.

## 7. DYLETSWYDDAU IECHYD A DIOGELWCH / GWASANAETHAU MYFYRWYR

Mae Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaethau Myfyrwyr (fel bo'n berthnasol), yn helpu Colegau, Gwasanaethau Proffesiynol, staff a myfyrwyr trwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth.

Bydd Iechyd a Diogelwch yn darparu templed Asesiad Risg Mamau Newydd a Beichiog i staff sy'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth yn y 6 mis diwethaf neu'n bwydo ar y fron ac yn eu hanfon at Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol i'w hystyried a'u mabwysiadu.

Bydd Iechyd a Diogelwch yn helpu colegau i werthuso risgiau posib i staff a myfyrwyr sy'n gweithio mewn labordai cemeg, labordai ymchwil fiolegol a labordai ymbelydrol a gyda meysydd electromagnetig tra eu bod yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.

## 8. CYFRIFOLDEBAU STAFF A MYFYRWYR

Dylai staff a myfyrwyr sy'n feichiog, sy'n dychwelyd ar ôl geni plentyn yn y 6 mis diwethaf neu'n bwydo ar y fron, roi gwybod i'w rheolwr llinell neu eu tiwtor personol cyn gynted ag y bo modd a chydweithredu ag unrhyw reolaethau y mae'r asesiad risg yn gofyn amdanynt. Gall y mamau newydd neu famau beichiog hynny nad ydynt yn dymuno rhoi gwybod ar unwaith i'w Rheolwr Llinell neu Diwtor Personol, ofyn am gyngor gan Iechyd a Diogelwch (staff) neu Wasanaethau Myfyrwyr (myfyrwyr).

Dylai myfyrwyr hefyd gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd i drafod eu hanghenion a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Dylai aelodau staff gysylltu ag Adnoddau Dynol cyn gynted ag y bo modd ynghylch eu beichiogrwydd er mwyn gallu rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cyngor ariannol a chontractol addas yn cael ei ddarparu.

Bydd Iechyd a Diogelwch hefyd yn cysylltu â phob aelod staff sydd wedi rhoi gwybod i Adnoddau Dynol a rhoddir y cyfle iddynt drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r gweithle a allai effeithio ar y beichiogrwydd. Mae'n bosib y cysylltir hefyd â myfyrwyr ôl-radd ymchwil sy'n gweithio gyda deunyddiau a allai fod yn beryglus.

Dylai Staff a Myfyrwyr sy'n bwydo ar y fron neu sy'n dychwelyd i'r gwaith/astudio o fewn 6 mis ar ôl rhoi genedigaeth hefyd roi gwybod i'w Tiwtor Personol neu eu Rheolwr Llinell am hyn fel y gellir cwblhau'r asesiad risg.

## 9. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech drwy'r asesiad risg i gefnogi unigolion fel eu bod yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd angen trin 'Mamau Newydd a Mamau Beichiog' yn wahanol i'w diogelu nhw a'r plentyn sydd heb ei eni neu sy'n newydd-anedig rhag effeithiau andwyol posibl y gweithle. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y sawl yr effeithir arnynt yn rhan o'r asesiad, a lle bo angen, gofynnir am gyngor Iechyd a Diogelwch.

Nodir y dylid defnyddio asesiadau risg iechyd a diogelwch fel trefn i alluogi staff a myfyrwyr i ymgymryd â'u tasgau yn ddiogel ac nid fel trefn i atal gweithgaredd dim ond am fod elfen o risg yn bodoli. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi staff a myfyrwyr i'w galluogi i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd â'u cyfoedion.

Pwrpas yr asesiad yw ceisio sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn ac weithiau bydd yn ofynnol gwneud newid i weithgareddau yn y gweithle.

## 10. CANLLAWIAU PELLACH

Ewch i Wefan Iechyd a Diogelwch y Brifysgol i gael rhagor o wybodaeth ac i gyfeirio at ganllawiau awdurdodol perthnasol.

## 11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Gall Iechyd a Diogelwch a Gwasanaethau Campws gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r Polisi hwn.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r Polisi hwn yn unol â'r Amserlen Adolygu y cytunwyd arni, a bydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**